Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

Bwrdd Diogelu Oedolion *Gogledd Cymru*
Adolygiad o Ymarfer Oedolion Cryno
Ynglŷn â: BDOGC2/2024

Braslun o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad
Dylid cynnwys: -

- *Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau ar gyfer y math o adolygiad a gynhelir.*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad.*
- *Y cyfnod dan adolygiad a pham.*
- *Amserlen gryno o'r digwyddiadau allweddol i'w hychwanegu fel atodiad.*

Cafodd adolygiad cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael eu hateb yn unol â rhan 7, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Atebir y meini prawf o dan 3.11, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion Llywodraeth Cymru (2016) sef:

- Nad yw oedolyn mewn perygl, ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn unigolyn y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad.
- Mae'r oedolyn wedi:
- Marw; neu
    - Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

Pwrpas yr adolygiad fyddai penderfynu a oes unrhyw wersi i asiantaethau eu dysgu.

Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Ym mis Ebrill 2024, galwyd Heddlu Gogledd Cymru i gyfeiriad yn Gogledd Cymru gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru. Roedd yr alwad yn ymwneud â dyn a oedd wedi marw, a chredai'r parafeddygon y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni a arweiniodd at ei farwolaeth.

Pennwyd ar y pryd bod dyn arall yn byw yn y cyfeiriad gyda'r sawl a oedd wedi marw. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd wedi hynny'n ddigon i gyhuddo'r dyn arall o lofruddiaeth, a arweiniodd at euogfarn am y trosedd hwnnw.

Cefndir yr unigolyn

Roedd yr unigolyn yn ŵr yn ei 50au cynnar, pan oedd yn ifanc roedd wedi bod yn artist brwd ac wedi cael ei dderbyn i ysgol gelf. Fodd bynnag, tra roedd yn gweithio

fel llafurwr cafodd anaf i'w law, ac o ganlyniad methodd â mynychu'r ysgol gelf ac ni weithiodd byth ar ôl hynny.

Ar ôl gwahanu oddi wrth fam ei blant pan oeddent yn ifanc iawn, bu'n byw gyda'i rieni gan weld ei blant bob pythefnos. Byddai'n mynd â nhw allan am y dydd i'r Rhyl ac i wylio Wrecsam yn chwarae pêl-droed.

Caiff ei ddisgrifio fel dyn ystyriol a charedig, a oedd yn annog y rheiny o'i gwmpas i gael hwyl. Bu farw ei fam oddeutu 6 mlynedd yn ôl ac ar ôl hynny dechreuodd y teulu weld llai o'i gilydd, a lleihaodd hynny'n fwy fyth ar ôl i'r ail ddyn symud i mewn i'r cartref.

Roedd yn osgoi technoleg a chyfryngau cymdeithasol, ac mae'n debyg bod hynny wedi cyfrannu at leihau ei gysylltiad â'i deulu dros amser, er eu bod yn ymwybodol o leoliad ei gilydd.

Ar ôl cael ei anafu yn y gwaith, daeth yn ddibynnol ar alcohol a chafodd gyfnodau rheolaidd o iechyd meddwl gwael, gan dderbyn cymorth ysbeidiol gan y GIG ar gyfer y ddau beth. O ganlyniad i ddefnyddio alcohol, dirywiodd ei iechyd corfforol a chafodd ddiagnosis o gyflyrau meddygol cysylltiedig, a bu'n glaf mewnol yn yr ysbyty ar gyfer ymyraethau dadwenwyo. Dros amser, gwelodd ei deulu ei fod yn dod yn fwy a mwy diamddiffyn.

Yn y blynyddoedd y bu'n byw yn ei eiddo, dywedir y byddai'r cymdogion yn cymdeithasu'n aml gydag ef y tu mewn a thu allan i'w cartrefi. Ar ddechrau 2023, ymddengys fod ganddo ffrind a oedd yn rhan o'r rhwydwaith cymdeithasol hwn, a symudodd i mewn am gyfnod dros dro, yn ôl y sôn nes
iddo gael ei fflat ei hun.

Penderfynu

Yn y deuddeng mis cyn dyddiad ei farwolaeth, roedd yr ymadawedig wedi cael dau atgyfeiriad dyletswydd i adrodd i'r Awdurdod Lleol ynghylch pryderon o gam-drin yn ariannol a nodwyd bod yr ymadawedig yn oedolyn diamddiffyn oherwydd ei ddibyniaeth ar alcohol yn y gorffennol.
Roedd yr atgyfeiriad cyntaf yn enwi'r gŵr a gafwyd yn euog o lofruddiaeth yn ddiweddarach fel y troseddwr. Arweiniodd yr atgyfeiriad hwn at ymweliad ar y cyd a chaewyd y mater heb unrhyw gamau pellach.

Gwnaethpwyd yr ail atgyfeiriad gan y troseddwr hwn, a enwodd berthynas i'r unigolyn fel troseddwr posibl. Cafodd yr atgyfeiriad ei roi i Un Pwynt Mynediad am wybodaeth, cyngor a chymorth.

Gan hynny, ni arweiniodd y naill atgyfeiriad na'r llall at roi achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol na'r Heddlu gymryd camau i amddiffyn yr unigolyn ar yr adegau hynny.

O ystyried yr atgyfeiriadau blaenorol i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ynghylch pryderon o gamdriniaeth ariannol, a nodweddion diamddiffynedd posibl yr unigolyn a fu farw, atgyfeiriwyd yr achos i'w ystyried ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion i bennu a oes unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer ymateb aml-asiantaethol.

Y cyfnod a adolygwyd

Cytunwyd y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar y cyfnod o 1 Ionawr 2023 tan ddyddiad y digwyddiad ym mis Ebrill 2024. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw bod y cyfnod yn cyd-fynd â chofnodion iechyd, roedd yr unigolyn wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty i arsylwi ar anaf i'w ben a diddyfnu alcohol yn dilyn ymosodiad gan ymosodwr di-enw, a gwelwyd y troseddwr yn mynd i mewn i'r eiddo yn llawer mwy aml.

I benderfynu pa gyfnod i'w adolygu, gofynnwyd i'r holl asiantaethau adolygu eu cofnodion, er na archwiliwyd y manylion, nodwyd bod yr unigolyn rhai blynyddoedd cyn y cyfnod a gytunwyd, wedi cael mynediad at wahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd. Efallai y cyfeirir at y rhain yn yr adolygiad hwn ond ni chânt eu harchwilio.

Ymarfer a dysgu sefydliadol.
Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) gydag amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol.

Datblygwyd y dadansoddiad canlynol o wybodaeth a rannwyd gan y teulu, gwybodaeth a roddwyd gan asiantaethau i'r panel a'r adolygwr, a safbwyntiau ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu. Cafodd nifer o themâu eu hamlygu a'u harchwilio. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu'n feysydd pynciau i ddarparu naratif sy'n ymwneud â'r amgylchiadau perthnasol, nodi ymarfer da a phwyntiau dysgu.

Angen Gwell Dealltwriaeth o Gydlyniant Cymdeithasol a Deinameg Gymunedol:

Amlygodd y digwyddiad dysgu bod gan y gymdogaeth dan sylw ddiwylliant sefydledig o ryngweithio cymdeithasol clos. Roedd y preswylwyr yn mynd i dai ei gilydd yn aml, ac roedd llawer iawn o gymdeithasu anffurfiol yn digwydd y tu mewn ac o amgylch y cartrefi. Roedd defnyddio alcohol, camddefnyddio sylweddau ac adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â'r amgylchedd hwn hefyd.

Gall cymunedau clos fel hyn greu heriau i weithwyr proffesiynol ambell waith wrth iddynt geisio gwahaniaethu rhwng perthnasoedd unigolion a nodi pryderon diogelu, gan fod y gymuned yn gallu cael ei gweld fel un uned gymdeithasol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd yn amlwg o gofnodion ac adborth yn ystod yr adolygiad bod swyddogion tai a staff cefnogi tenantiaid wedi gwneud ymdrech sylweddol i ymgysylltu â phreswylwyr unigol.

Yn benodol, roedd yr unigolyn wrth wraidd yr adolygiad hwn wedi datblygu perthynas gadarnhaol a phroffesiynol â staff tai. Roedd o'n adnabod swyddogion wrth eu henwau ac o ran eu gweld, ac roedd eu presenoldeb rheolaidd yn yr ardal yn adlewyrchu dull rhagweithiol a oedd yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau statudol. Cafodd yr ymgysylltiad cyson hwn ei gydnabod fel enghraifft o ymarfer da mewn cefnogi tenantiaid a diogelu yn y gymuned.

Deall Cyfathrebu ac Ymgysylltu:

Yn gyffredinol, roedd cyfathrebu rhwng asiantaethau wedi digwydd yn amserol ac yn briodol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad. Fodd bynnag, roedd rhwystrau ymarferol wedi tarfu'n sylweddol ar gyfathrebu gyda'r unigolyn ei hun. Nid oedd ganddo ffôn personol, nid oedd adref yn aml, ac nid oedd yn ymateb i lythyrau nac ymweliadau yn aml. Er bod asiantaethau wedi ceisio gadael cardiau galw pan nad oedd adref yn ystod eu hymweliadau, nid oedd tystiolaeth yn ddiweddarach yn y cyfnod dan sylw i ddangos bod ystyriaeth wedi'i roi i'r adroddiadau bod gan yr unigolyn nam ar y golwg. Efallai bod hyn wedi cyfyngu ymhellach ar ei allu i dderbyn neu ymateb i ymdrechion i gyfathrebu.

Gwyddom fod ymgysylltiad yr unigolyn â gwasanaethau wedi bod yn amrywiol. Datgelodd adolygiad o'r gronoleg aml-asiantaethol batrwm o ddiffyg ymgysylltu a oedd yn cyd-fynd â chyfnodau o ddirywiad yn ei les - yn enwedig o ran ei iechyd meddwl a'i ddefnydd o alcohol.

Fodd bynnag, nid oedd y patrwm hwn yn un hawdd i unrhyw asiantaeth ei nodi oherwydd y cyswllt tameidiog a'r heriau wrth geisio dod i gysylltiad ag ef mewn dulliau confensiynol.

Asesu Diamddiffynedd a Phwysigrwydd Rhannu Gwybodaeth:

Roedd dau atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd wedi'u gwneud i'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad. Ar sail y wybodaeth a oedd ar gael i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ar y pryd, fel y dangosir yn y gronoleg, roedd canlyniadau trafodaethau gwerthuso a strategaeth yn gymesur ac yn briodol.

Adborth dilynol gan deulu'r unigolyn fel rhan o'r adolygiad hwn yw eu bod yn gweld yr unigolyn yn mynd yn fwy a mwy diamddiffyn.

Mae dogfennau a adolygwyd yn dangos y gallai ffordd o fyw'r unigolyn fod wedi'i chanfod fel un sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar alcohol yn bennaf. Ond, roedd ystod ehangach o nodweddion diamddiffynedd wedi'u nodi gan bob asiantaeth a fynychodd y digwyddiad dysgu nad oeddent o reidrwydd wedi'u rhannu mewn modd holistaidd. Roedd y rhain yn cynnwys ffactorau hanesyddol a sefyllfaol a oedd wedi cyfrannu at broffil risg cyffredinol yr unigolyn, gan gynnwys iechyd meddwl gwael a chyflyrau iechyd corfforol yn gysylltiedig â defnyddio alcohol, a'i bresenoldeb yn yr ysbyty oherwydd ymosodiad ac iechyd corfforol gwael dilynol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'u nodi ar gyfer y rhain yn ymwneud â chynnig am atgyfeiriad i asiantaethau eraill gan Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru neu'r ysbyty.

Nid oes tystiolaeth chwaith bod y gwasanaethau cymdeithasol wedi ceisio gwybodaeth gan unrhyw un o'r asiantaethau hyn pan wnaethpwyd yr atgyfeiriadau Dyletswydd i Adrodd. Mae hyn yn codi'r ffaith, pe bai gwybodaeth wedi bod ar gael i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu ynglŷn â diamddiffynedd ar yr adegau hynny, y byddai wedi rhoi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o anghenion a risgiau'r unigolyn, gan ddylanwadu o bosibl ar benderfyniadau a wnaed wrth werthuso'r Ddyletswydd i Adrodd.

Mae angen atgyfnerthu dulliau rhannu gwybodaeth a phrotocolau aml-asiantaethol

pan godir pryderon am oedolyn diamddiffyn posibl.

Clywed Llais yr Unigolyn:

Mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr proffesiynol tai wedi ceisio cynnal cyswllt rheolaidd â'r unigolyn ac wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol ag ef. Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth o gyfleoedd tebyg ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill i archwilio materion yn ymwneud â diogelwch, iechyd a lles yr unigolyn. Pan gynhaliwyd sgyrsiau o'r fath, nid oeddent wedi cael eu cynnal yn breifat.

Roedd diffyg mynediad at ffôn personol yn golygu bod yr unigolyn yn defnyddio ffôn y troseddwr honedig, a hynny'n aml ar uchelseinydd. Yn ystod ymweliadau â'r cartref, roedd gweithwyr proffesiynol yn aml wedi methu â siarad gyda'r unigolyn ar ei ben ei hun oherwydd bod eraill yn bresennol yn yr eiddo neu o'i gwmpas. Mae'n bosibl bod yr amgylchiadau hyn wedi effeithio ar allu'r unigolyn i siarad yn agored ac yn gyfrinachol.

Mae achlysuron hefyd wedi'u cofnodi lle cafwyd sgyrsiau â'r unigolyn a'r troseddwr honedig ar y cyd, neu lle roedd y troseddwr wedi siarad ar ran yr unigolyn. Mae hyn yn codi ystyriaethau pwysig ynglŷn â sut oedd safbwyntiau'r unigolyn yn cael eu casglu a ph'un a oedd yn gallu mynegi ei hun yn rhydd ac yn ddi-ddylanwad.

Deall Camfanteisio a Rheolaeth drwy orfodaeth:

Gall camfanteisio a rheolaeth drwy orfodaeth ddod i'r amlwg mewn ffyrdd amrywiol, a nododd yr adolygiad hwn gymhlethdodau wrth adnabod ac ymateb i ddeinameg debyg yn yr achos hwn. Gwnaethpwyd y sefyllfa'n fwy heriol gan y naratifau cyfnewidiol a gyflwynwyd gan y troseddwr a chydsyniad honedig yr unigolyn i gynnal yr hyn a ddisgrifiwyd fel perthynas gyd-ddibynnol.

Er bod dangosyddion camfanteisio a rheolaeth drwy orfodaeth bosibl, roedd gwir natur y berthynas yn dal yn aneglur. Roedd croesddweud rhwng yr unigolyn a'r troseddwr yn ei gwneud yn anodd i weithwyr proffesiynol nodi graddau'r camfanteisio neu reolaeth drwy orfodaeth.

Er y gweithredwyd ar yr atgyfeiriadau Dyletswydd i Adrodd yn briodol trwy ystyried a thrafod mewn trafodaethau strategaeth aml-asiantaethol. Y camau gweithredu mwyaf a gymerwyd oedd siarad gyda'r unigolyn ac nid deall y berthynas neu'r risgiau posibl yr oedd y troseddwr honedig a enwyd yn yr atgyfeiriad yn ei achosi i'r unigolyn ac eraill.

Roedd trafodaethau ac ystyriaethau'r adolygwr yn ystod yr adolygiad yn ystyried nifer o fframweithiau perthnasol, gan gynnwys:

- Gofyn a Gweithredu: Polisi gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at nodi ac ymateb i gamdriniaeth ddomestig, trais rhywiol a rheolaeth drwy orfodaeth.

- Deddfwriaeth Trais a Chamdriniaeth Ddomestig : gan gynnwys Deddf Troseddau Difrifol 2015, a gyflwynodd y drosedd o ymddygiad rheoli neu orfodi mewn perthnasoedd agos neu deulu.

- Meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio (Cuckooing): Math o gamfanteisio lle mae rheolaeth dros gartref unigolyn yn cael ei gymryd gan eraill, gyda chysylltiad â gweithgareddau troseddol neu gamdriniaeth yn aml.

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998: Er bod y Ddeddf hon yn darparu fframwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch cymunedol, nid oedd yn perthyn yn uniongyrchol i'r pryderon diogelu yn yr achos hwn. Fodd bynnag, byddai defnyddio A115 at ddibenion rhannu gwybodaeth wedi gallu cael ei ystyried.

Cydnabuwyd yn ystod y digwyddiad dysgu nad oedd y sefyllfa a gyflwynwyd yn cyd-fynd yn glir ag unrhyw fframwaith deddfwriaethol penodol, ac ar adeg y digwyddiadau, roedd protocolau a pholisïau asiantaethau yn amrywio. Aethpwyd i'r afael â rhai o'r anghysonderau hyn ers hynny.

Mae angen dull gweithredu aml-asiantaethol i nodi sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chamfanteisio a rheolaeth drwy orfodaeth bosibl, yn enwedig mewn achosion nad ydynt yn cyd-fynd yn union â fframweithiau presennol.

Deall Meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio a chamfanteisio cynnil:

Nododd yr adolygiad nifer o ddangosyddion camfanteisio, a oedd o bosibl heb eu cydnabod a heb gael ymateb ar yr adeg oherwydd cymhlethdod y sefyllfa a natur esblygol y berthynas rhwng yr unigolyn a'r troseddwr.

Er nad oedd y term *'cuckooing'* yn Saesneg - sef meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio, yn aml at ddibenion troseddol - yn cael ei ddefnyddio'n ffurfiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad, mae sawl nodwedd yn yr achos yn cyd-fynd â dangosyddion amlwg yn y math hwn o gamdriniaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Oedolyn â chefndir o ddibyniaeth ar alcohol, iechyd meddwl gwael ac arwahanrwydd cymdeithasol.

- Mae'r ffaith bod y troseddwr yn treulio mwy o amser yn yr eiddo, gan honni ei fod yn drefniant dros dro, yn cyd-fynd â'r patrymau a welir wrth feddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio (cuckooing) a chyd-fyw camfanteisiol.

- Diffyg mynediad yr unigolyn at ffôn personol, a dibyniaeth ar y troseddwr i gyfathrebu.

- Yr unigolyn yn llai gweledol i wasanaethau ers i'r trefniant cyd-fyw ddechrau.

- Pryderon am gamdriniaeth ariannol, gan gynnwys atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd yn enwi'r troseddwr.

Mae'r elfennau hyn yn pwyntio at batrwm posibl o gamfanteisio a oedd yn gynnil, yn aml-haenog, ac yn anodd ei gategoreiddio mewn fframweithiau diogelu presennol. Oherwydd nodweddion diamddiffyn yr unigolyn, wedi'i gyfuno gyda dylanwad y troseddwr, crëwyd sefyllfa lle gallai camfanteisio ddigwydd yn gudd oddi wrth drothwyau traddodiadol ar gyfer ymyraethau.

Er yr adroddwyd bod yr unigolyn wedi cydsynio i'r trefniant cyd-fyw, mae'r naratifau

anghyson, a'r canlyniad yn y pen draw, yn awgrymu nad oedd y berthynas wedi bod yn un mor gydsyniol neu gyd-ddibynnol ag y gwelodd ac yr adroddodd y gweithwyr proffesiynol.

Meysydd ymarfer effeithiol

Gweithiodd Swyddogion Tai a Swyddogion Cefnogi Tenantiaid y tu hwnt i'w dyletswyddau statudol, gan geisio tro ar ôl tro i ymgysylltu â'r unigolyn er gwaethaf ei ddatgysylltiad. Roedd y ffaith eu bod yn bresennol yn yr ardal yn rheolaidd yn meithrin agosrwydd i drigolion lleol, ac fe godwyd pryderon diogelu yn briodol ganddyn nhw.

Ar adeg yr atgyfeiriad dyletswydd i adrodd cyntaf, yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd, ymatebodd y tîm diogelu yn y gwasanaethau cymdeithasol yn brydlon i drefnu cyfarfod strategaeth.

Gweithiodd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Dai ar y cyd ar yr ymweliad diogelu, gan sicrhau bod swyddog tai yr oedd yr unigolyn yn ei adnabod yn bresennol i gefnogi ymgysylltiad.

Gwella Systemau ac Ymarfer
Er mwyn hybu dysgu o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau sy'n aelodau ac wedi rhagweld canlyniadau gwelliant:-

1. Cryfhau Dealltwriaeth o Gamfanteisio mewn cyd-destun ehangach

I'w ystyried gan is-grŵp hyfforddiant y bwrdd diogelu, a'r grŵp polisi i hysbysu gwaith sy'n cael ei wneud yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru

- Gwell ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol o'r amrywiol ffyrdd, a ffyrdd cudd, y gall camfanteisio ddod i'r amlwg, gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth a meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio.

- Dylai hyfforddiant a chanllawiau aml-asiantaethol edrych ar gamfanteisio fel sbectrwm ehangach, gan gynnwys rheolaeth ariannol, emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol, megis meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio, gyda llwybrau clir i asesu ac ymyrryd. Gan gynnwys pan nad yw'r sefyllfa'n cynnwys gweithgareddau troseddol amlwg neu gamfanteisio'n gysylltiedig â chyffuriau.

- Dylai hyfforddiant a goruchwyliaeth diogelu roi pwyslais ar adnabod ffactorau risg cyfunedig a gwerth safbwynt holistaidd, aml-asiantaethol wrth asesu pa mor ddiamddiffyn yw unigolyn.

- Dylai hyfforddiant a goruchwyliaeth gefnogi gweithwyr proffesiynol i adnabod y goblygiadau diogelu posibl o fewn cymunedau hynod gysylltiedig, gan gynnwys y perygl i gamfanteisio neu ddeinameg gorfodaeth gael ei normaleiddio neu ei anwybyddu.

- Dylai hyfforddiant diogelu gynnwys enghreifftiau o achosion sy'n adlewyrchu natur gynnil ac esblygol camfanteisio ar oedolion, gan gynnwys senarios sy'n disgyn y tu allan i ddiffiniadau traddodiadol.

2. Atgyfnerthu Dulliau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

I'w hystyried gan bob asiantaeth ar lefel weithredol

- Gweithwyr proffesiynol i roi mwy o ystyriaeth i anghenion cyfathrebu unigolion, gan gynnwys mynediad at dechnoleg a nam ar y synhwyrau.

- Asiantaethau i fabwysiadu strategaethau ymgysylltu hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd o bosibl â chysylltiad amrywiol neu gyfyngedig â gwasanaethau.

3. Gwell Rhannu Gwybodaeth Rhwng Asiantaethau

I'w ystyried gan y grŵp polisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu

- Bwrdd Diogelu i adolygu ac atgyfnerthu protocolau i rannu gwybodaeth yn amserol a chymesur mewn cyd-destunau diogelu.

- Atgoffa ymarferwyr o bwysigrwydd chwilfrydedd proffesiynol, rhannu gwybodaeth a pherthnasedd gwybodaeth iechyd hanesyddol a phresennol i gynorthwyo i wneud penderfyniadau deallus. Cynnwys fframweithiau cyfreithiol sydd ar gael i hwyluso rhannu gwybodaeth, megis Adran 115.

- Atgyfnerthu protocolau i sicrhau bod nodweddion diamddiffynedd hanesyddol a chyd-destunol yn cael eu hystyried mewn asesiadau diogelu.

4. Clywed Llais yr Unigolyn

I'w ystyried drwy Archwiliadau gan grwpiau cyflawni rhanbarthol ac is-grŵp ymarferwyr y bwrdd diogelu:

- Ymarferwyr i adnabod a chofnodi unrhyw rwystrau cyfathrebu fel mater o drefn – megis dim ffôn i'w defnyddio neu amhariadau synhwyraidd – ac addasu eu dull cyfathrebu yn unol â hynny.
- Gweithwyr proffesiynol i ymdrechu ar y cyd i sicrhau bod unigolion yn cael cyfleoedd i siarad yn breifat heb ddylanwad eraill.
- Asiantaethau i gynnig defnydd o wasanaethau eiriolaeth annibynnol lle mae rhwystrau cyfathrebu neu bryderon am orfodaeth gan rywun arall.

5. **Hyrwyddo Defnyddio Cronolegau i Gynorthwyo i Adnabod Risg**

I'w ystyried gan y Grŵp Datblygu a Hyfforddi Gweithlu'r Bwrdd Diogelu

- Asiantaethau i hybu mwy o sylw i gronoleg gwahanol asiantaethau er mwyn gallu sylwi ar batrymau lle mae unigolion yn datgysylltu neu lle mae eu lles yn dirywio, a allai fod yn anodd i wasanaethau unigol sylwi arnynt.

6. Adolygu Polisi a Chanllawiau Ymarfer Aml-asiantaethol

I'w ystyried gan grŵp polisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu

- Pob asiantaeth i gydweithio er mwyn adolygu ac alinio polisïau a gweithdrefnau rhwng asiantaethau sy'n ymwneud â chamfanteisio a rheolaeth drwy orfodaeth, gan roi ystyriaeth i newidiadau deddfwriaethol newydd.
- Argymhellir cyfeirio'n bendant at feddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i hwyluso camfanteisio (cuckooing) mewn protocolau diogelu, yn enwedig lle ceir cyfuniad o nodweddion diamddiffynedd, cyd-fyw a phryderon am reolaeth neu gamfanteisio.
- Bwrdd diogelu i ddatblygu dull gweithredu aml-asiantaethol ar y cyd i ymdrin â senarios cymdeithasol a diogelu cymhleth a allai ddisgyn rhwng fframweithiau presennol.
- Adolygu protocolau diogelu aml-asiantaethol i sicrhau eu bod yn atgyfnerthu pwysigrwydd clywed yn uniongyrchol gan yr unigolyn lle bynnag y bo modd a chydnabod pryd y gall eu llais gael ei guddio neu ei ddylanwadu gan eraill.

Datganiad gan yr Adolygwr/Adolygwyr			
ADOLYGWR 1	Becky Griffiths	**ADOLYGWR 2** ***(fel bo'n briodol)***	
Datganiad annibyniaeth o'r achos *Datganiad o gymhwyster i ddibenion sicrhau ansawdd*		**Datganiad annibyniaeth o'r achos** *Datganiad o gymhwyster i ddibenion sicrhau ansawdd*	
Rwy'n gwneud y datganiad hwn cyn fy ymgysylltiad â'r adolygiad dysgu hwn: - • Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad. • Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r		Rwy'n gwneud y datganiad hwn cyn f' ymgysylltiad â'r adolygiad dysgu hwn: • Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos. • Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw. • Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad. • Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r	

materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.	materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.
Adolygwr 1 *(Llofnod)* **Enw Enw: Becky Griffiths** **Dyddiad** 11/11/2025	**Adolygwr 2** *(Llofnod)* **Dyddiad**

Cadeirydd y Panel Adolygu

(Llofnod)

Enw Neil Ayling
Dyddiad 11/11/2025

Proses Adolygu Ymarfer Oedolion
Dylid cynnwys yn fras:

- *Y broses a ddilynir gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu.*
- *Y digwyddiad dysgu a gynhaliwyd a'r gwasanaethau a fynychodd.*
- *Hysbyswyd aelodau o'r teulu, gofynnwyd am eu barn ac fe'i cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a darparwyd adborth iddynt.*

Yn unol â'r canllawiau statudol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion, cafodd panel aml-asiantaethol ei alw ynghyd i reoli a llywio'r broses. Cafodd ei gadeirio gan Gadeirydd ac adolygydd annibynnol ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Diogelu Oedolion
- BIPBC
- Tai

Er nad oeddent yn rhan o'r panel, darparodd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru wybodaeth am alwadau.

Dechreuodd y panel y broses ddysgu drwy gasglu cronolegau ar gyfer y cyfnod y cytunwyd arno ac ystyried y dadansoddiad canlynol ar gyfer eu hasiantaethau:

- Gwneud penderfyniadau a chyflawni gwasanaeth
- Cyfathrebu rhwng asiantaethau
- Rhwystrau canfyddedig i weithio gyda'r unigolyn
- Gwersi a nodwyd i asiantaethau unigol ddysgu ohonynt
- Pa arferion da a ddigwyddodd
- Themâu ar gyfer dysgu yn y dyfodol

Cynhaliwyd y Digwyddiad Dysgu ar 16 Mehefin 2025 o 10 tan 3.00 a chafodd ei hwyluso gan y cadeirydd a'r Adolygwr. Ymarferwyr ac Asiantaethau a gynrychiolwyd yn y digwyddiad oedd:

- Diogelu Oedolion
- Gwasanaethau Oedolion
- Tai
- Heddlu Gogledd Cymru
- BIPBC - ymgynghorydd a rheolwr ward

Yn ystod hanner cyntaf y digwyddiad, archwiliodd y cyfranogwyr amserlen ymgysylltiad yr asiantaethau â'r unigolyn.

Gofynnwyd iddynt archwilio sawl agwedd:

- Beth oeddent yn ei wybod am yr unigolyn ei hun?
- Sut oeddent yn ei weld o ran pa mor ddiamddiffyn oedd o ar y pryd? Ar ôl myfyrio a oes ganddynt safbwynt gwahanol am ba mor ddiamddiffyn oedd o?
- Beth oeddech chi'n ei ddeall neu'n ei gredu oedd y berthynas â / rôl y troseddwr yn y cartref ar y pryd?
- Ar ôl myfyrio, a oes unrhyw beth y gallent fod wedi'i gwestiynu'n wahanol?

Gofynnwyd iddynt archwilio themâu diamddiffynedd a chamfanteisio mewn trafodaeth grŵp, a nodi arfer da a meysydd i ddysgu ohonynt.

Yn ystod yr adolygiad hwn, cysylltwyd ag aelodau'r teulu i'w gwahodd i gymryd rhan. Fodd bynnag, dim ond un aelod o'r teulu a ddewisodd gyfarfod â'r Adolygwr a Chadeirydd y Panel. Mae eu barn a'u myfyrdodau wedi'u cynrychioli yn yr adroddiad hwn.

☐ Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig
Dyddiad y derbyniwyd yr wybodaeth …….

Dyddiad y cafodd llythyr o gydnabyddiaeth ei anfon at Gadeirydd y Bwrdd ……

Dyddiad ei ddosbarthu i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol ……..

Asiantaethau	✓	×	**Rheswm**
AGGCC	☐	☐	
Estyn	☐	☐	
AGIC	☐	☐	
Arolygiaeth Heddluoedd Heddlu Ei Fawrhydi	☐	☐	
Gwasanaeth Prawf Ei Fawrhydi	☐	☐	